

# City & Guilds Lefel 3 Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch (7005- 03)

Tachwedd 2022 Fersiwn 1.0

**Llawlyfr Cymwysterau**

## Cipolwg ar y cymhwyster

<b>Maes pwnc</b>	Harddwch a therapïau cyflenwol / harddwch
<b>Rhif City &amp; Guilds</b>	7005
<b>Grŵp oedran wedi'i gymeradwyo</b>	16-18, 18+, 19+
<b>Gofynion mynediad</b>	AMH
<b>Asesu</b>	Portffolio, Profion Gwybodaeth, Trafodaeth Broffesiynol, Aseiniad.
<b>Graddio</b>	Llwyddo/Methu
<b>Cymeradwyaethau</b>	Cymeradwyaeth llwybr cyflym / Angen cymeradwyaeth lawn
<b>Deunyddiau cefnogol</b>	Llyfr Log, Asesiadau enghreifftiol, Smartscreen
<b>Cofrestru ac ardystio</b>	Gweler y Walled Garden/Catalog Ar-lein ar gyfer dyddiadau olaf

Teitl a lefel	Rhif cymhwyster City & Guilds	Rhif cyfeirnod rheoleiddiol	ODDA	CAC
City & Guilds Lefel 3 Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch	7005-03	610/1582/9	410	450

Fersiwn a dyddiad	Newid manylion	Adran
V1.0 Tach 2022	Fersiwn cychwynol	Y cyfan

## Cynnwys

Cipolwg ar y cymhwyster	2
1 Cyflwyniad	4
Strwythur	7
Cyfanswm Amser y Cymhwyster	8
2 Gofynion canolfannau	9
Cymeradwyaeth	9
Gofynion adnoddau	10
Sicrhau ansawdd	10
Gofynion mynediad dysgwyr	11
Cyfyngiadau oedran	11
Mynediad at asesiad ac ystyriaeth arbennig	11
3 Darparu'r cymhwyster	12
Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu	12
Deunyddiau cymorth	12
4 Asesiad	13
Asesu'r cymhwyster	13
Strategaeth asesu	14
Portffolio o dystiolaeth	14
Ffynonellau tystiolaeth	14
Cyfyngiadau amser	14
Manylebau prawf	15
5 Unedau	22
Strwythur yr unedau	22
Canllawiau ar gyfer cyflwyno'r unedau	22
Uned 301 Ymgynghori, Asesu, Cynllunio a Pharatoi ar gyfer Triniaethau Harddwch	23
Uned 302 Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Diogel, Hylan ac Effeithiol	27
Uned 303 Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Gweithredol i Gynnwys Gweithgareddau Busnes, Manwerthu a Hyrwyddo	33
Uned 304 Darparu Triniaethau Therapi Trydanol y Corff	41
Uned 305 Darparu Triniaethau Therapi Trydanol yr Wyneb	47
Uned 306 Darparu Triniaethau Tylino corff gan Ddefnyddio Technegau Uwch	54
Atodiad 1 Rhestr termau	62
Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol	67



# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthy ch beth sydd angen i chi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster:

Maes	Disgrifiad
Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?	Mae Lefel 3 City & Guilds Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch yn gymhwyster sydd wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sydd o leiaf yn 16 oed ac sy'n dymuno gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth gan weithio fel Therapydd Harddwch Uwch. Gofynion mynediad nodweddiadol fyddai dilyn, astudio neu gwblhau Safon Prentisiaeth Lefel 2 Therapi Harddwch neu gymhwyster cyfatebol i gael sail sylfaenol y swydd
Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu?	Mae'r cymhwyster hwn yn cwmpasu'r holl wybodaeth a sgiliau craidd sydd eu hangen i ddod yn Therapydd Harddwch Uwch cymwys. Prif ffocws y cymhwyster hwn yw bod y Therapydd Harddwch Uwch yn dylunio ac yn gweithredu cynlluniau triniaeth pwrpasol ar gyfer triniaethau harddwch uwch. Mae'r triniaethau uwch hyn yn amrywio o therapïau uwch â llaw fel; <ul style="list-style-type: none"><li>• technegau tyllino uwch</li><li>• therapïau technegol fel triniaethau trydanol wyneb a chorff, i ddiwallu a rheoli anghenion a disgwyliadau cleientiaid.</li><li>• gweithredu gweithgareddau sefydliadol (systemau a phrosesau busnes salon, diogelu data) i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, cyfrannu at effeithiolrwydd y busnes yn ariannol, cynnal a gwneud y mwyaf o adnoddau, (pobl, cyfarpar a nwyddau traul).</li></ul>
Pa gyfleoedd ar gyfer cynnydd sydd ar gael?	Bydd dysgwr sy'n cyflawni Lefel 3 City & Guilds Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch yn gallu mynd ymlaen i swydd sy'n gyfrifol am weithio'n annibynnol i ddarparu triniaethau uwch mewn amgylchedd preifat, diogel a saf. Bydd Therapydd Harddwch Uwch hefyd, pan fo angen, yn goruchwyllo eraill i gefnogi twf tîm a busnes.

Maes	Disgrifiad
Gyda phwy wnaethom ddatblygu'r cymhwyster?	Mae City & Guilds Lefel 3 Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch wedi'i greu o'r newydd yn seiliedig ar angen cyflogwyr ac fe'i cynlluniwyd gan gyflogwyr.
A yw'n rhan o fframwaith neu fenter prentisiaethau?	Datblygwyd City & Guilds Lefel 3 Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch i gefnogi a gwella gofynion ar y rhaglen Safon Prentisiaeth Therapydd Harddwch Uwch Lefel 3, gan gwmpasu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau gofynnol.

## Strwythur

Er mwyn ennill City & Guilds Lefel 3 Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch, rhaid i ddysgwyr gyflawni:

Rhif uned City & Guilds	Teitl uned	ODDA
<b>Unedau gorfodol:</b>		
Rhaid i ddysgwyr gyflawni pob un o'r <b>chwe</b> uned orfodol.		
301	Ymgynghori, Asesu, Cynllunio a Pharatoi ar gyfer Triniaethau Harddwch	26
302	Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Diogel, Hylan ac Effeithiol	20
303	Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Gweithredol i Gynnwys Gweithgareddau Busnes, Manwerthu a Hyrwyddo	53
304	Darparu Triniaethau Therapi Trydanol y Corff	110
305	Darparu Triniaethau Therapi Trydanol yr Wyneb	110
306	Darparu Triniaethau Tylino Corff gan Ddefnyddio Technegau Uwch	91

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC/TQT) yw nifer yr oriau tybiannol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol er mwyn i ddysgwr ddangos cyflawniad lefel y cyrhaeddiad sy'n angenrheidiol ar gyfer dyfarnu cymhwyster.

Mae CAC yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

- 1) Nifer yr oriau y mae sefydliad dyfarnu wedi'u neilltuo i gymhwyster ar gyfer Dysgu dan Arweiniad, a
- 2) Amcangyfrif o nifer yr oriau y bydd dysgwr yn rhesymol debygol o'u treulio wrth baratoi, astudio neu unrhyw fath arall o gyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys asesu, sy'n digwydd yn unol â'r cyfarwyddyd - ond, yn wahanol i Ddysgu dan Arweiniad, nid o dan arweiniad uniongyrchol neu oruchwyliaeth - darlithydd, goruchwylwr, tiwtor neu ddarparwr priodol arall addysg neu hyfforddiant.

Teitl a lefel	ODDA	CAC
City & Guilds Lefel 3 Diploma i Therapyddion Harddwch Uwch	410	450



## 2 Gofynion canolfannau

### Cymeradwyaeth

#### Cymeradwyaeth lawn

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau newydd gael cymeradwyaeth y ganolfan a'r cymhwyster. Cyfeiriwch at y ddogfen **Safonau Sicrhau Ansawdd: Y Broses Cymeradwyo Canolfan** am ragor o wybodaeth.

Dylai staff y ganolfan ymgyswddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

#### NEU

#### Cymeradwyaeth llwybr cyflym

Os cymeradwyir eich canolfan i gynnig **Diploma Technegol Uwch 6003-30 City & Guilds mewn Therapi Harddwch a Sba** neu **Ddiploma NVQ 3007-55 mewn Therapi Harddwch – Cyffredinol** yna gallwch wneud cais am gymeradwyaeth llwybr cyflym ar gyfer y 7005-03 newydd gan ddefnyddio'r ffurflen cymeradwyo llwybr cyflym, sydd ar gael o wefan City & Guilds.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r ffurflen llwybr cyflym os:

- Na fu unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y cymwysterau eu darparu, a
- Ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo yn nodiadau'r ffurflen cyfarwyddyd ar lwybr cyflym.

Mae cymeradwyaeth llwybr cyflym ar gael am 12 mis o lansio'r cymhwyster. Ar ôl 12 mis, bydd yn rhaid i ganolfannau fynd drwy'r Broses Cymeradwyo Cymwysterau safonol. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am wirio bod cymeradwyaeth llwybr cyflym yn dal i fod yn gyfredol adeg y cais.

Cyfeiriwch at y ddogfen **Safonau Sicrhau Ansawdd: Y Broses Cymeradwyo Canolfan** am ragor o wybodaeth.

Dylai staff y ganolfan ymgyswddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymwysterau cyn cynllunio rhaglen cwrs.

## Gofynion adnoddau

### Staffio'r ganolfan

Rhaid i staff sy'n darparu'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylen nhw:

- bod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n dechnegol wybodus yn y maes/meysydd y maent yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer a/neu sydd â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod i'r un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- meddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- meddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

### Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Disgwylir i ganolfannau gefnogi eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol yn y maes galwedigaethol ac arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd, a'i fod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Sicrhau ansawdd

Rhaid i ganolfannau cymeradwy gael systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ffordd orau o gyflawni ac asesu cymwysterau. Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyaeth gychwynnol gan ganolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Mae canolfannau yn gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol ac mae City & Guilds yn gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol. Am fwy o fanylion am hyn, ewch i'r dogfennau [Safonau Sicrhau Ansawdd](#) ar wefan City & Guilds.

Mae safonau a sicrhau ansawdd trylwyr yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio:

- Sicrhau ansawdd mewnol
- Sicrhau ansawdd allanol City & Guilds.

Er mwyn cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd, mae'n rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

- meddu ar wybodaeth ac arbenigedd addysgu a galwedigaethol priodol
- meddu ar brofiad mewn rheoli ansawdd/sicrhau ansawdd mewnol
- meddu ar neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster addysgu/hyfforddiant / asesu priodol
- bod yn gyfarwydd â'r alwedigaeth a'r cynnwys technegol a gwmpesir yn y cymhwyster.

Bydd sicrhau ansawdd allanol ar gyfer y cymhwyster yn cael ei ddarparu gan broses SAA City & Guilds. Penodir SAAau gan City & Guilds i gymeradwyo canolfannau, ac i fonitro'r asesiad a'r sicrhau ansawdd mewnol a gynhelir gan ganolfannau. Sicrheir ansawdd allanol i sicrhau bod asesu yn ddilys ac yn ddibynadwy, a bod ymarfer asesu da mewn canolfannau.

Rôl yr SAA yw:

- rhoi cyngor a chefnogaeth i staff y ganolfan
- sicrhau ansawdd a chysondeb asesiadau o fewn a rhwng canolfannau drwy ddefnyddio samplu systematig
- rhoi adborth i ganolfannau ac i City & Guilds.

## **Gofynion mynediad dysgwyr**

Nid yw City & Guilds yn gosod gofynion mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

## **Cyfyngiadau oedran**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer dysgwyr 16 oed neu hŷn.

## **Mynediad at asesiad ac ystyriaeth arbennig**

Am wybodaeth ar sut i wneud cais am drefniadau mynediad, gweler ***Sut a phryd i wneud cais am drefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig (cityandguilds.com)***

### 3 Darparu'r cymhwyster

#### Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu

Dylid gwneud asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau eu rhaglen i nodi:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cymorth ac arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymhwyster
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu'r credyd y maent wedi ei gronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math priodol a'r lefel cymhwyster.

Rydym yn argymhell bod canolfannau yn darparu rhaglen gynefino fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster yn llawn, eu cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

#### Deunyddiau cymorth

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

Disgrifiad	Sut i gael mynediad
Llyfr log ymgeiswyr	<a href="http://www.cityandguilds.com">www.cityandguilds.com</a>
Asesiadau enghreifftiol	<a href="http://www.cityandguilds.com">www.cityandguilds.com</a>
Cyfarwyddiadau'r asesydd	<a href="http://www.cityandguilds.com">www.cityandguilds.com</a>
SmartScreen	<a href="http://www.smartscreen.co.uk">www.smartscreen.co.uk</a>

## 4 Asesiad

### Asesu'r cymhwyster

Mae'n rhaid i ymgeiswyr:

- bod â phortffolio o dystiolaeth wedi'i chwblhau ar gyfer pob uned
- bod wedi cwblhau prawf gwybodaeth amlddewis ar gyfer pob uned
- bod wedi cwblhau'r prawf gwybodaeth traws-uned.

Uned	Teitl	Dull asesu	Ble i gael deunyddiau asesu
	Prawf gwybodaeth traws-uned	Prawf ar-lein	Rhif prawf ar-lein <b>600</b>
301	Ymgynghori, Asesu, Cynllunio a Pharatoi ar gyfer Triniaethau Harddwch	Portffolio a Thrafodaeth Broffesiynol	7005 Aseiniadau a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
302	Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Diogel, Hylan ac Effeithiol	Portffolio A Phrawf Ar-lein	Rhif prawf ar-lein <b>602</b>
303	Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Gweithredol i Gynnwys Gweithgareddau Busnes, Manwerthu a Hyrwyddo	Portffolio ac Aseiniad	7005 Aseiniadau a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
304	Darparu Triniaethau Therapi Trydanol y Corff	Portffolio A Phrawf ar-lein	Rhif prawf ar-lein <b>604</b>
305	Darparu Triniaethau therapi trydanol yr wyneb	Portffolio A Phrawf ar-lein	Rhif prawf ar-lein <b>605</b>
306	Darparu Triniaethau Tylino Corff gan Ddefnyddio Technegau Uwch	Portffolio A Phrawf ar-lein	Rhif prawf ar-lein <b>606</b>

## Strategaeth asesu

Caiff unedau eu hasesu drwy Bortffolio o Dystiolaeth. Rhaid cynhyrchu'r holl dystiolaeth yn y portffolio ar gyfer y canlyniadau dysgu sgiliau yn y gweithle neu amgylchedd gwaith realistig.

## Portffolio o dystiolaeth

Gall dysgwyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull papur neu electronig o gofnodi dystiolaeth.

Mae City & Guilds yn cefnogi nifer o systemau eBortffolio, gan gynnwys ein **Cynorthwydd Dysgu** ein hunain, offeryn ar-lein hawdd ei ddefnyddio a diogel i gefnogi a thystio cynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [www.cityandguilds.com/eportfolios](http://www.cityandguilds.com/eportfolios).

Mae City & Guilds wedi datblygu set o *Ffurflenni cofnodi* gan gynnwys enghreifftiau o ffurflenni wedi'u cwblhau, er mwyn i ganolfannau newydd a phresennol eu defnyddio fel y bo'n briodol. Mae *ffurflenni cofnodi* ar gael ar wefan City & Guilds.

Er bod disgwyl i ganolfannau newydd ddefnyddio'r ffurflenni hyn, gall canolfannau ddyfeisio neu addasu ffurflenni amgen, y mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo i'w defnyddio gan y Sicrhawyr Ansawdd Allanol, cyn iddynt gael eu defnyddio gan ymgeiswyr ac aseswyr yn y ganolfan. Mae fersiynau newidiadwy (MS Word) o'r ffurflenni ar gael ar wefan City & Guilds.

## Ffynonellau dystiolaeth

Bydd Portffolio o Dystiolaeth fel arfer yn cynnwys sawl darn o dystiolaeth - rhaid iddo gynnwys digon o dystiolaeth i ddangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob uned briodol.

Gall ffynonellau dystiolaeth gynnwys:

- llyfrau log hyfforddi
- taflenni gwaith a gweithgareddau a gynhyrchir gan y Ganolfan
- lluniau anodedig
- clipiau fideo (hyd at uchafswm o 10 munud i gyd)
- dogfennau / cofnodion yn y gweithle, er enghraifft cardiau swydd/taflenni gwaith, cofnodion gwirio offer / cynnal a chadw / triniaeth, cofnodion archebu rhannau.

Nid yw hon yn rhestr ddiffiniol; caniateir ffynonellau dystiolaeth eraill.

Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir fod yn ddilys ac y gellir ei phriodoli i'r dysgwr; rhaid i'r Portffolio o Dystiolaeth gynnwys datganiad gan y Ganolfan yn cadarnhau hyn.

Ni ddylai'r **dystiolaeth** gynnwys:

- unrhyw ddulliau hunanasesu
- dylai unrhyw gyfraniadau gan gyflogwr ganolbwyntio ar arsylwi dystiolaeth yn uniongyrchol (er enghraifft datganiadau tystion) o gymhwysedd yn hytrach na barn.

## Cyfyngiadau amser

Mae cofrestriad cymhwyster yn ddilys am bum mlynedd.

## Manylebau prawf

Mae'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chynnwys ym mhob prawf wedi'i nodi yn y tablau isod:

### 7005-600 - Prawf gwybodaeth traws-uned

**Deunyddiau a ganiateir:** Dim deunyddiau wedi'u caniatáu

**Gradd:** Llwyddo / Methu

**Marc llwyddo:** 16

**Hyd:** 45 munud

Rhif maen prawf	Meini prawf	Nifer y cwestiynau
2.1	Eich rôl a'ch cyfrifoldebau wrth ddarparu triniaethau trydanol y corff a phwysigrwydd gweithio o fewn eich cymhwysedd	1
2.14	pwysigrwydd cadw at brotocol triniaeth drydanol y corff / wyneb	
2.2	pam mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ymarfer moesegol a gweithio o fewn y gofynion deddfwriaethol, i gynnwys y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu awdurdodau lleol ar eich cyfer chi a'ch safle	1
2.3	pwysigrwydd cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus a dogfennu hyn i gynnwys polisiau gwybodaeth, gweithdrefnau a chanllawiau arfer gorau diweddaraf	2
2.4 a	yr <b>anatomi a ffisioleg, strwythur, swyddogaethau</b> a phatholeg sy'n berthnasol i driniaethau trydanol y corff, trydanol yr wyneb a therapi â llaw	3
2.4 b	yr <b>anatomi a ffisioleg, strwythur, swyddogaethau a phatholeg</b> sy'n berthnasol i driniaethau trydanol y corff, trydanol yr wyneb a therapi â llaw	3
2.6	pwysigrwydd cydnabod afreoleidd-dra a briwiau croen amheus, ac atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol	1
2.9	y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth	1
2.10 a	pam mae hi'n bwysig trafod a chanfod <b>amcanion, pryderon, disgwyliadau, canlyniadau</b> a ddymunir gan yr unigolyn a chytuno ar gynllun triniaeth drydanol y corff	1
2.10. b	pam mae hi'n bwysig trafod a chanfod amcanion, pryderon, <b>disgwyliadau, canlyniadau a ddymunir gan yr unigolyn a chytuno ar gynllun triniaeth drydanol y corff</b>	3
2.12	strwythurau ffioedd ac opsiynau triniaeth	
2.11	y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau harddwch i blant dan oed ac oedolion bregus	
2.13	gofynion deddfwriaethol ac indemniad ennill caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi ar gyfer triniaeth drydanol y corff	3

2.24	y rhesymau dros gynhyrchu cyfryngau gweledol cydsyniol o ardal driniaeth yr unigolyn a storio yn unol â gofynion y gwasanaeth, a rhai deddfwriaethol, yswiriant a sefydliadol	
2.25	gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol cwblhau a storio cofnodion triniaeth drydanol corff yr unigolyn	
2.17	y mathau o gynhyrchion hylendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr	1
2.23	pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod, ac ar ôl triniaeth	1
2.27	diben ymarfer myfyriol a gwerthuso a sut mae'n llywio triniaethau yn y dyfodol	1
2.28	pwysigrwydd cofnodi canlyniad a gwerthusiad triniaeth drydanol y corff	1
<b>Cyfanswm</b>		<b>23</b>

## 7005-602 - Gweithredu a Chynnal Arferion Gwaith Diogel, Hylan ac Effeithiol

**Deunyddiau a ganiateir:** Nid oes deunyddiau a ganiateir

**Gradd:** Llwyddo / Methu

**Marc llwyddo:** 14

**Hyd:** 30 munud

Rhif maen prawf	Meini prawf	Nifer y cwestiynau
2.1.	eich cyfrifoldebau dros <b>iechyd a diogelwch</b> fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swydd	
2.3	rheolau ac amodau'r awdurdod lleol, gofynion trwyddedu a/neu gofrestru ar eich cyfer chi a'ch safle	3
2.4	pwysigrwydd cydymffurfio â chod ymddygiad proffesiynol yn y gweithle, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol	
2.22	eich gofynion yswiriant ac indemniad cyfredol, sy'n berthnasol i'r weithdrefn	
2.5	eich lles corfforol a seicolegol eich hun a sut y gallai hyn effeithio ar allu darparu triniaeth yn ddiogel	1
2.18	sut y gall technegau lleoli ac arferion gwaith diogel atal <b>anaf sy'n gysylltiedig â gwaith a salwch</b>	
2.6	eich cyfrifoldeb a'r gweithdrefnau adrodd ar gyfer amheuaeth o gamymddwyn	
2.7	sut a phryd i geisio cyngor a chymorth pellach y tu allan i gylch gwaith yr ymarferydd, i gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth data	1
2.8	sut i gynnal asesiad risg a rheolaethau i'w rhoi ar waith	
2.20	y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd gwaith, cyfarpar, deunyddiau, cynhyrchion a'r rheolaethau sydd i'w rhoi ar waith	1



2.9	sut a pham y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â <b>gweithdrefnau atal a rheoli heintiau</b> , i gynnwys rhagofalon cyffredinol a rhagofalon safonol	
2.10	y diheintyddion arwyneb caled, i gynnwys:	
2.10.1	cyfansoddion cemegol a risgiau cysylltiedig	
2.10.2	sut mae amserau cyswllt yn effeithio ar effeithiolrwydd	
2.11	achosion a risgiau halogiad micro baidd a dulliau atal heintiau	<b>3</b>
2.12	y diheintyddion croen yn cynnwys:	
2.12.1	cyfansoddion cemegol a risgiau cysylltiedig	
2.12.2	yr effaith ar y raddfa pH a'r swyddogaeth rhwystr	
2.12.3	sut mae amserau cyswllt yn effeithio ar effeithiolrwydd	
2.13	achosion, peryglon dod i gysylltiad damweiniol â gwastraff clinigol a sut i ymateb	<b>1</b>
2.26	y gofynion deddfwriaethol ar gyfer gwaredu gwastraff	
2.14	archwilio, cyfrifoldeb ac atebolrwydd arferion a gweithdrefnau gwaith	
2.19	pwysigrwydd sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn unol â gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:	
2.19.1	goleuadau a goleuo	
2.19.2	gwresogi	
2.19.3	awyriad	<b>3</b>
2.19.4	gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar	
2.19.5	cyfleusterau ac amwynderau	
2.19.6	archwilio ac atebolrwydd	
2.17	y gofynion deddfwriaethol a sefydliadol ar gyfer amddiffyn, paratoi, urddas a phreifatrwydd yr unigolyn	<b>1</b>
2.21	yr ystod o <b>arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy</b>	<b>1</b>
2.23	cyfarwyddiadau diogelwch deddfwriaethol, sefydliadol a'r gwneuthurwr ar gyfer cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion, i gynnwys:	
2.23.1	storio	
2.23.2	trafod	<b>2</b>
2.23.3	defnyddio	
2.23.4	gwaredu	

2.23.5	cadw cofnodion	
2.24	pam mae'n rhaid i chi ddod o hyd i gyfarpar a chynhyrchion sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys:	
2.24.1	sicrhau bod cynhyrchion a geir at ddefnydd cosmetig	2
2.24.2	osgoi'r risg o wenwyndra	
2.25	y gofynion deddfwriaethol ar gyfer profion cyn y gweithdrefnau, gan ystyried:	
2.25.1	pwrpas y profion	1
2.25.2	sut a phryd i gynnal profion	
<b>Cyfanswm</b>		<b>20</b>

## 7005-604 - Darparu Triniaethau Therapi Trydanol y Corff

**Deunyddiau a ganiateir:** Nid oes deunyddiau a ganiateir

**Gradd:** Llwyddo / Methu

**Marc llwyddo:** 10

**Hyd:** 30 munud

Rhif maen prawf	Meini prawf	Nifer y cwestiynau
2.5	y gwrth-arwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r driniaeth harddwch, i gynnwys y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol ac atgyfeiriad	
2.7	pwrpas, defnydd a chyfyngiadau triniaeth drydanol y corff, mewn perthynas â:	
2.7.1	hanes meddygol yn y gorffennol a'r presennol	4
2.7.2	ffactorau ffordd o fyw perthnasol	
2.7.3	meddyginiaeth a chyflyrau meddygol	
2.7.4	disgwyliadau unigolion	
2.8	yr adweithiau andwyol sy'n gysylltiedig â thriniaeth drydanol y corff a sut i ymateb	1
2.15	sut i gynnal a dehongli profion cyn-triniaeth	1
2.18	mathau, buddion a chyfyngiadau technolegau trydanol y corff a'r effeithiau ffisiolegol ar feinwe'r croen a'r cyhyrau, i gynnwys:	3
2.18.1	math o gerrynt a ddefnyddir	

2.18.2	risgiau cysylltiedig a sut i ymateb	
2.26	canlyniadau disgwylidig triniaethau trydanol y corff	
2.19	y cynhyrchion a ddefnyddir ar y cyd â thriniaethau trydanol y corff a'r risgiau sy'n gysylltiedig	1
2.20	sut i baratoi a defnyddio cynhyrchion ac offer yn unol â phrotocol triniaeth drydanol y corff	1
2.21	y mathau o driniaeth y gellid eu rhoi ar y cyd â thriniaethau trydanol y corff neu ar ôl hyn	1
2.22	pam mae hi'n bwysig esbonio'r broses driniaeth, sŵn offer a synhwyriad i'r unigolyn	1
2.29	cyfarwyddiadau a chyngor, cyn ac ar ôl triniaeth drydanol y corff	1
<b>Cyfanswm</b>		<b>14</b>

## 7005-605 - Darparu triniaethau therapi trydanol yr wyneb

**Deunyddiau a ganiateir:** Nid oes deunyddiau a ganiateir

**Gradd:** Llwyddo / Methu

**Marc llwyddo:** 14

**Hyd:** 30 munud

Rhif maen prawf	Meini prawf	Nifer y cwestiynau
2.5	y gwrth-arwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r driniaeth harddwch, i gynnwys y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol ac atgyfeiriad	
2.7	pwrpas, defnydd a chyfyngiadau triniaethau trydanol wyneb mewn perthynas â hyn, i gynnwys:	
2.7.1	hanes meddygol yn y gorffennol a'r presennol	
2.7.2	hanes triniaeth	5
2.7.3	cyflwr croen	
2.7.4	ffactorau ffordd o fyw perthnasol	
2.7.5	meddyginiaeth a chyflyrau meddygol	
2.7.6	disgwyliadau unigolion	
2.16	y mathau o <b>dechnolegau trydanol yr wyneb a</b> ddefnyddir mewn <b>triniaethau wyneb</b> a'r effeithiau ffisiolegol ar feinwe'r croen a'r cyhyrau, i gynnwys:	3
2.16.1	math o gerrynt a ddefnyddir	

2.16.2	risgiau cysylltiedig a sut i ymateb	
2.29	canlyniadau disgwylidig triniaethau trydanol wyneb	
2.15	sut y gall rhaglen preimio croen ac argymhellion cyn-triniaeth fod o fudd i ganlyniadau triniaeth drydanol yr wyneb	
2.19	pwysigrwydd cynnal dadansoddiad croen i benderfynu ar y cynllun triniaeth a'r offer trydanol wyneb i'w defnyddio	4
2.23	y mathau o driniaethau y gellid eu rhoi ar y cyd â thriniaethau trydanol wyneb neu ar ôl hynny	
2.10	yr adweithiau andwyol sy'n gysylltiedig â thriniaethau trydanol yr wyneb a sut i ymateb	1
2.18	sut i gynnal a dehongli profion cyn-triniaeth	1
2.21	y cynhyrchion a ddefnyddir ar y cyd â thriniaethau trydanol yr wyneb a'r risgiau sy'n gysylltiedig	1
2.22	sut i baratoi a defnyddio cynhyrchion ac offer yn unol â phrotocol triniaeth drydanol yr wyneb	1
2.24	pam mae hi'n bwysig esbonio'r broses driniaeth, sŵn offer a synhwyriad i'r unigolyn	1
2.25	pwysigrwydd cymhwyso cynnyrch ôl-driniaeth, i gynnwys pryd a pham mae ffactor amddiffyn rhag yr haul, cynnyrch ôl-driniaeth, yn cael ei ddefnyddio	1
2.32	cyfarwyddiadau a chyngor, cyn ac ar ôl triniaeth drydanol yr wyneb	1
<b>Cyfanswm</b>		<b>19</b>

## 7005-606 - Darparu Triniaethau Tylino Corff gan Ddefnyddio Technegau Uwch

**Deunyddiau a ganiateir:** Nid oes deunyddiau a ganiateir

**Gradd:** Llwyddo / Methu

**Marc llwyddo:** 13

**Hyd:** 30 munud

Rhif maen prawf	Meini prawf	Nifer y cwestiynau
2.5	y gwrth-arwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r driniaeth harddwch, i gynnwys y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol ac atgyfeiriad	
2.7	pwrpas, defnydd a chyfyngiadau triniaethau uwch tylino corff, mewn perthynas â:	
2.7.1	hanes meddygol yn y gorffennol a'r presennol	6
2.7.2	proffil ffordd o fyw perthnasol	
2.7.3	meddyginiaeth a chyflyrau meddygol	

2.7.4	namau a chyflyrau osgo	
2.19	pwysigrwydd cynnal dadansoddiad o'r corff a'r croen i benderfynu ar y cynllun triniaeth, i gynnwys pam mae hi'n bwysig nodi diffygion a chyflyrau osgo unigolyn a sut y gellir eu gwella	
2.8	yr adweithiau andwyol sy'n gysylltiedig â thriniaeth tylino corff uwch a sut i ymateb	1
2.16	amlder darparu triniaethau tylino corff uwch a'r effaith bosibl ar iechyd a lles y gweithiwr proffesiynol, i gynnwys:	1
2.16.1	ffyrdd o osgoi risgiau i iechyd a lles	
2.16.2	osgoi <b>anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith</b>	
2.16.3	cynnal eich lles personol eich hun	2
2.17	pwysigrwydd cynnal eich ystum a'ch safiad eich hun drwy gydol triniaeth tylino, i gynnwys sut mae osgo a safiad yn cefnogi llif ac effeithiolrwydd y driniaeth	
2.18	sut i gynnal cysur a gofal yr unigolyn trwy gydol y driniaeth yn unol â thylino uwch y corff, i gynnwys sut mae'r amgylchedd yn hyrwyddo tawelu neu ysgogi canfyddiadau amlsynhwyraidd y corff	2
2.25	sut y gellir addasu technegau tylino corff uwch i greu <b>effeithiau therapiwtig</b>	
2.21	y cyfryngau tylino a ddefnyddir mewn tylino corff uwch a'u heffeithiau	1
2.26	sut i baratoi a defnyddio cynhyrchion ac offer yn unol â'r protocol trin tylino corff uwch	
2.22	mathau, buddion a chyfyngiadau cyn-triniaethau a gynhelir cyn triniaeth uwch tylino corff	1
2.23	mathau, buddion a chyfyngiadau technegau tylino uwch ac offer llaw anthermol a ddefnyddir o fewn triniaeth uwch tylino corff, i gynnwys risgiau cysylltiedig a sut i ymateb	1
2.24	mathau ac effeithiau technegau tylino corff uwch	1
2.27	pam mae hi'n bwysig esbonio'r broses driniaeth a'r synhwyriad i'r unigolyn	
2.29	pwysigrwydd caniatáu amser adfer i'r unigolyn ar ôl y driniaeth tylino corff uwch	1
2.32	canlyniadau disgwylidig triniaethau tylino corff uwch	
2.35	y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl triniaeth uwch tylino corff	1
	<b>Cyfanswm</b>	<b>18</b>

## 5 Unedau

### Strwythur yr unedau

Mae gan bob un o'r unedau hyn y canlynol:

- Rhif cyfeirnod City & Guilds
- Teitl
- Lefel
- Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA/GLH)
- Nod yr uned
- Math o asesu
- Canlyniadau dysgu, sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- Datganiadau ystod
- Gwybodaeth ategol

### Canllawiau ar gyfer cyflwyno'r unedau

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys nifer o **unedau**. Mae uned yn disgrifio'r hyn a ddisgwyllir gan berson cymwys mewn agweddau penodol o'i swydd.

Mae pob **uned** wedi'i rhannu'n **ddeilliannau dysgu** sy'n disgrifio ymhellach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai ymgeisydd feddu arnynt.

Mae gan bob **canlyniad dysgu** set o **feini prawf asesu** (perfformiad, a gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf a ddymunir y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni.

Mae datganiadau **amrediad** yn diffinio ehangder neu gwmpas canlyniad dysgu a'i feini prawf asesu drwy nodi'r amgylchiadau amrywiol y maent i'w cymhwyso ynddynt.

Mae **gwybodaeth ategol** yn darparu arweiniad i'r gofyniad tystiolaeth ar gyfer yr uned a chanllawiau penodol ar ddatganiadau cyflwyno ac ystod. Cynghorir canolfannau i adolygu'r wybodaeth hon yn ofalus cyn cyflwyno'r uned.

<b>Lefel:</b>	3
<b>ODDA:</b>	26
<b>Math o asesu:</b>	Portffolio a thrafodaeth broffesiynol.
<b>Anelu:</b>	<p>Mae'r uned hon yn ymwneud â chynnal yr ymgynghoriad, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer y sectorau Harddwch.</p> <p>Bydd angen i chi ddilyn y protocolau triniaeth, gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol i weithredu a chynnal arferion gwaith diogel, hylan ac effeithiol.</p> <p>Mae'n ddoeth i chi fod yn ymwybodol o'r rhain a chydymffurfio â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gofynion cymorth cyntaf</li> <li>• yr holl ddeddfwriaeth gysylltiedig</li> <li>• protocolau gwneuthurwyr</li> <li>• polisiau a gweithdrefnau sefydliadol</li> </ul>

### Canlyniadau Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer therapïau harddwch

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr, gan ystyried:
  - 1.1.1 hanes meddygol a statws meddygol cyfredol yr unigolyn
  - 1.1.2 hanes triniaeth yr unigolyn
  - 1.1.3 **ardal driniaeth** yr unigolyn
  - 1.1.4 pryderon, disgwyliadau a chanlyniadau a ddymunir gan yr unigolyn
  - 1.1.5 ystyried lles corfforol a seicolegol yr unigolyn ar gyfer y driniaeth
  - 1.1.6 anghenion amrywiol
  - 1.1.7 nodi gwrth-arwyddion a chyfyngiadau cymharol a llwyr
- 1.2. adnabod, ymateb a chyfeirio'n briodol mewn ymateb i unrhyw **gyflyrau a ddatgelir** yn unol â deddfwriaeth data
- 1.3. trafod amcanion, pryderon, disgwyliadau a chanlyniadau a ddymunir gan yr unigolyn i lywio'r cynllun triniaeth
- 1.4. esbonio strwythur y ffioedd
- 1.5. trafod a chytuno ar gyfarwyddiadau ac argymhellion cyn-triniaeth cyn cynnal y driniaeth
- 1.6. asesu, trafod, cytuno a dogfennu'r ymgynghoriad a'r canlyniadau triniaeth disgwyliedig a'r risgiau cysylltiedig gyda'r unigolyn

- 1.7. hysbysu a darparu gwybodaeth i'r unigolyn o'u **hawliau**
  - 1.8. trafod y synhwyriad corfforol a all ddigwydd yn ystod y driniaeth gyda'r unigolyn yn unol â'r protocol triniaeth
  - 1.9. datblygu'r cynllun triniaeth
  - 1.10. darparu **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y driniaeth
- 

## Ystod

### 1.1.3 Ardal driniaeth

- dosbarthiad croen
  - Graddfa Fitzpatrick
  - Math Ffeno, math Geno
  - Graddfa Lancer
- cyflwr croen
- sensitifrwydd croen

### 1.2 Cyflyrau a ddatgelir

- gwrth-arwyddion, cymharol a llwyr
- anhwylderau dysmorffig y corff
- cyflwr corfforol a seicolegol

### 1.7 Hawliau

- amser / cyfnod myfyrio i wneud dewis gwybodus
- cytundeb gwybodus a chydsyniad i'r driniaeth
- cytundeb ariannol / contractiol
- yr hawl i ofyn am gymwysterau pwnc-benodol, hyfforddiant ac yswiriant indemniad

### 1.10 Cyfarwyddiadau

- hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd
  - cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl triniaeth
  - triniaethau'r dyfodol
- 

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 2 gwybod sut i ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer therapïau harddwch
- 

## Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn deall ac yn gwybod:

- 2.1. pwysigrwydd cydweithio â gweithwyr proffesiynol cymwys i gefnogi arferion gwaith effeithiol a diogel
- 2.2. pam mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ymarfer moesegol a gweithio o fewn y gofynion deddfwriaethol
- 2.3. y gwrth-arwyddion neu gyflyrau cyflwyno
- 2.4. y rhesymau pam y gall cyflyrau meddygol fynd yn groes i'r driniaeth
- 2.5. y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol ac atgyfeirio
- 2.6. pwysigrwydd cyfathrebu â'r unigolyn mewn modd proffesiynol, ac o fewn terfynau eich cymwyseddau eich hun
- 2.7. y ffactorau i'w hystyried wrth greu cynllun triniaeth pwrpasol



- 2.8. pam mae'n rhaid i chi ddatblygu a chytuno ar gynllun triniaeth, er mwyn cynnwys:
    - 2.8.1 statws meddygol cyfredol a ddatganwyd
    - 2.8.2 hanes triniaeth
    - 2.8.3 gwrth-arwyddion cymharol a llwyr
    - 2.8.4 ymgymryd â dadansoddiad o'r ardal driniaeth
    - 2.8.5 disgwyliadau unigolion
    - 2.8.6 ystyried lles corfforol a seicolegol yr unigolyn ar gyfer y driniaeth
  - 2.9. pwysigrwydd nodi anghenion amrywiol yr unigolyn ac addasu'r driniaeth yn unol â hynny
  - 2.10. sut y gall beichiogrwydd effeithio ar y driniaeth, a phwysigrwydd cynnal asesiad risg yn unol â gofynion deddfwriaethol ac yswiriant
  - 2.11. effaith dylanwadau cymdeithasol, y cyfryngau a thueddiadau
  - 2.12. pwysigrwydd asesu, trafod, cytuno, adolygu a dogfennu canlyniadau'r ymgynghoriad
  - 2.13. pwysigrwydd esbonio'r broses driniaeth, y canlyniadau disgwyliedig a'r risgiau cysylltiedig
  - 2.14. manteision defnyddio cymhorthion gweledol yn ystod ymgynghoriad
  - 2.15. sut i reoli disgwyliadau'r unigolyn
  - 2.16. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer caffael, cofnodi, storio, diogelu a chadw data'r unigolyn
  - 2.17. pam mae rhai triniaethau wedi'u gwahardd neu eu cyfyngu ar gyfer plant dan oed
  - 2.18. y gofynion deddfwriaethol sy'n nodi hawliau'r unigolyn a'r gweithiwr proffesiynol
  - 2.19. y gofynion deddfwriaethol, yswiriant a sefydliadol ar gyfer cymryd a storio **cyfryngau gweledol** o ardal driniaeth yr unigolyn
  - 2.20. gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol cwblhau a storio cofnodion triniaeth yr unigolyn
  - 2.21. y rhesymau dros ddarparu cyfarwyddiadau a chyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth
- 

## Ystod

### 2.20 Cyfryngau gweledol

- ffotograffig
- fideo

## Uned 301

# Ymgynghori, Asesu, Cynllunio a Pharatoi ar gyfer Triniaethau Harddwch

## Gwybodaeth Gefnogol

### Gofynion tystiolaeth

Ni chaniateir efelychu ar gyfer unrhyw dystiolaeth o berfformiad o fewn yr uned hon.

Rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi bodloni'r safon ar gyfer ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau harddwch.

Bydd yr ymgynghoriadau hyn yn cael eu cynnal yn gyfannol yn unol â'ch gwahanol driniaethau.

Byddwch yn cyflwyno **pum** ffurflen ymgynghori. Rhaid i chi ystyried, ym mhob ymgynghoriad, dosbarthiad cyflwr a sensitifrwydd y croen. Y mathau o wybodaeth y bydd eich cleient yn ei datgelu.

Bydd eich asesydd yn arsylwi ar eich perfformiad ar **o leiaf 5 achlysur**.

O'r ystod, rhaid i chi ddangos yn ymarferol eich bod wedi:

- ystyried pob ardal driniaeth
- ystyried yr holl gyflyrau a ddatgelir
- rhoi gwybod i'r cleient am ei holl hawliau
- darparu'r holl gyfarwyddiadau

Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o dystiolaeth o'ch perfformiad yn cael ei chasglu o'r sylwadau a wnaed gan eich asesydd, ond efallai y bydd gofyn i chi gynhyrchu tystiolaeth arall i gefnogi'ch perfformiad os nad yw'ch asesydd wedi bod yn bresennol.

<b>Lefel:</b>	3
<b>ODDA:</b>	20
<b>Math o asesu:</b>	Portffolio a phrawf gwybodaeth.
<b>Anelu:</b>	<p>Mae'r uned hon ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cydymffurfio â chynnal arferion iechyd, diogelwch, rheoli heintiau a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith, yn unol â'r protocol triniaeth, gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol.</p> <p>Bydd angen i chi nodi, asesu a gweithredu dulliau rheoli mewn perthynas â chi eich hun, yr amgylchedd gwaith gan gynnwys offer, cyfarpar a chynhyrchion, yr unigolyn a'r ardal i gael ei thrin, cyn i'r driniaeth gael ei chyflawni.</p> <p>Mae'n ddoeth i chi fod yn ymwybodol o'r rhain a chydymffurfio â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gofynion cymorth cyntaf</li> <li>• yr holl deddfwriaeth gysylltiedig</li> <li>• protocolau gwneuthurwyr</li> <li>• polisiau a gweithdrefnau sefydliadol.</li> </ul>

### Canlyniadau Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, hylan ac effeithiol

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 cynnal eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth, yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau, cyfarwydddebau a chanllawiau perthnasol eraill
- 1.2 cynnal asesiad(au) risg cyn ymgymryd â'r weithdrefn, i gynnwys cofnodi canlyniadau'r asesiad(au) risg
- 1.3. gweithredu dulliau rheoli a chymryd camau priodol i osgoi croes-halogi uniongyrchol ac anuniongyrchol
- 1.4. defnyddio mesurau atal a rheoli heintiau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau, cyfarwydddebau a chanllawiau perthnasol eraill, i gynnwys rhagofalon cyffredinol a rhagofalon safonol
- 1.5. paratoi'r **amgylchedd gwaith** yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol

- 1.6. paratoi ac amddiffyn eich hun ac eraill o fewn yr amgylchedd gwaith yn unol â pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol, i gynnwys:
    - 1.6.1 hylendid personol
    - 1.6.2 cyflwyniad personol
    - 1.6.3 offer amddiffynnol personol
  - 1.7. lleoli'r unigolyn yn unol â'r protocol triniaeth
  - 1.8. defnyddio arferion gwaith sy'n:
    - 1.8.1 lleihau blinder a'r risg o anaf i chi eich hun ac eraill
    - 1.8.2 defnyddio arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
    - 1.8.3 lleihau risg a chynnal diogelwch yr unigolyn
  - 1.9. caffael a dewis yr offer, y deunyddiau a'r cynhyrchion i ddiwallu anghenion yr unigolyn, yr ardal i'w thrin, sy'n addas i'r diben, i gynnwys:
    - 1.9.1 risgiau cysylltiedig
